

# Adroddiad Monitro Brexit: Yr Amgylchedd

19 Mai - 12 Gorffennaf 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**  
E-bost: **[Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru](mailto:Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru)**  
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**  
Blog: **[SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Adroddiad Monitro Brexit Yr Amgylchedd

19 Mai - 12 Gorffennaf 2018

---

**Awduron:**

Elfyn Henderson, Katy Orford, Jessica Laimann, Andrew Minnis, Lorna Scurlock, Francesca Howorth a Siân Davies.

**Trosolwg o'r papur:**

Bydd Brexit yn dod â newidiadau sylweddol ym maes polisi amgylcheddol. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi paratoi'r adroddiad monitro hwn ar gyfer Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad. Mae'n darparu diweddariad ar ddatblygiadau Brexit diweddar sy'n bwysig o ran polisi amgylcheddol yng Nghymru.



## Cynnwys

<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>Negodiadau rhwng y DU a'r UE .....</b>	<b>1</b>
<b>Camau gweithredu eraill gan Lywodraeth y DU .....</b>	<b>4</b>
<b>Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru .....</b>	<b>10</b>
<b>Camau gweithredu gan Lywodraeth yr Alban .....</b>	<b>15</b>
<b>Camau gweithredu gan Senedd y DU .....</b>	<b>22</b>
<b>Camau gweithredu gan Senedd yr Alban .....</b>	<b>32</b>
<b>Ffynonellau allweddol eraill.....</b>	<b>36</b>

---

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar ddatblygiadau diweddar yn ymwneud â Brexit ym maes polisi amgylcheddol. Fe'i paratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ar gyfer **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad** ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 19 Mai tan 12 Gorffennaf 2018. Mae'r **adroddiad blaenorol** yn cwmpasu'r cyfnod hyd at a chan gynnwys 18 Mai.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o drafodaethau a datblygiadau o ran y perthynas rhwng y DU a'r UE o fewn y DU sy'n effeithio ar yr ardal polisi amgylcheddol. Mae'n canolbwyntio ar weithgareddau:

- sefydliadau'r UE;
- llywodraethau a deddfwrfeydd y DU; ac
- yn darparu ffynonellau gwybodaeth allweddol eraill.

Nid yw datblygiadau yng Ngogledd Iwerddon wedi'u cynnwys gan fod y sefydliadau datganoledig yno wedi'u hatal dros dro.

I gael trosolwg llawn o'r negodiadau'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE, gweler **Adroddiadau Monitro Ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r Wybodaeth Ddiweddaraf am Brexit**, sy'n cael eu paratoi ar gyfer **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad**.

## Negodiadau rhwng y DU a'r UE

### Safbwynt negodi y DU

Ar 6 Gorffennaf, cyfarfu Cabinet Llywodraeth y DU yn Chequers i gytuno ar safbwynt negodi diwygiedig ar Brexit. Mae **datganiad a gyhoeddwyd yn dilyn y cyfarfod** yn amlinellu'r sefyllfa lefel uchel sy'n cynnwys ardal fasnach rydd ar gyfer nwyddau a llyfr rheolau cyffredin ar gyfer yr holl nwyddau gan gynnwys bwyd-amaeth.

Prif elfennau cytundeb Chequers yw:

- Byddai'r DU a'r UE yn cynnal **llyfr rheolau cyffredin ar gyfer yr holl nwyddau gan gynnwys bwyd-amaeth**. Byddai Senedd y DU yn gallu gwneud penderfyniad ar ymgorffori rheolau newydd yn y maes hwn pe bai'n dymuno, gan gydnabod y byddai canlyniadau o ran mynediad i'r farchnad a/neu'r ffin ddirwystr. Byddai trefniant gwahanol yn cael ei wneud ar gyfer
- gwasanaethau, gan gydnabod na fydd gan y DU a'r UE fynediad i farchnadoedd ei gilydd ar yr un lefel ag sydd ganddynt ar hyn o bryd.
- Byddai'r DU a'r UE hefyd yn cytuno i gynnal safonau rheoliadol uchel ar gyfer yr amgylchedd a newid hinsawdd ymhlith meysydd eraill a byddai'n ymrwymo i beidio â gadael i safonau fynd yn is na'u lefelau presennol.
- Byddai'r DU a'r UE yn cynnwys **cyd-ymrwymiadau cryf yn ymwneud â masnach agored a theg** yn y testun cyfreithiol a fydd yn sail i'w perthynas yn y dyfodol. Byddai hyn yn cynnwys rheolau cyffredin ar gymorth gwladwriaethol a chydweithredu rhwng rheoleiddwyr cystadleuaeth.
- Byddai'r DU a'r UE yn sefydlu fframwaith sefydliadol ar y cyd er mwyn **dehongli a chymhwyso cytundebau rhwng y DU a'r UE mewn ffordd gyson**. Byddai'r DU a'r UE yn gweithio gyda'i gilydd ar gyflwyno **Trefniant Tollau newydd wedi'i Hwyluso** a fyddai'n dileu'r angen am wiriadau a rheolaethau'n ymwneud â thollau rhwng y DU a'r UE fel pe bai'n diriogaeth tollau gyfunol. Byddai'r DU yn cymhwyso tariffau a pholisi masnach y DU ar gyfer nwyddau a fwriedir ar gyfer y DU, a thariffau a pholisi masnach yr UE ar gyfer nwyddau a fwriedir ar gyfer yr UE.
- Bydd y berthynas yn y dyfodol yn cynnwys fframwaith symudedd fel y gall dinasyddion y DU a'r UE barhau i deithio i diriogaethau ei gilydd, a gwneud cais i astudio a gweithio yno.

Mae'r cynigion wedi'u nodi'n fanwl ym **Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol**. Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar 12 Gorffennaf wrth i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau. Bydd crynodeb yn cael ei gynnwys yn y rhifyn nesaf.

Croesawodd Prif Negodwr yr UE, Michel Barnier, **y drafodaeth yn Chequers** gan ddweud y byddai'r cynigion yn cael eu hasesu i weld a ydynt yn ymarferol ac yn realistig o ystyried canllawiau Cyngor yr UE.

Ar 5 Gorffennaf, ddiwrnod yn gynharach, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford, **ddatganiad** gan ddweud nad oedd drafft llawn o'r

Papur Gwyn wedi'i rannu â Llywodraethau Cymru na'r Alban a bod hyn yn mynd yn groes i sicrwydd blaenorol gan Lywodraeth y DU y byddai'r gweinyddiaethau datganoledig yn cael cyfle ystyrlon i lunio safbwyntiau negodi wrth iddynt ddatblygu.

Ar 8 Gorffennaf, ddau ddiwrnod ar ôl y cyfarfod yn Chequers, ymddiswyddodd David Davis, Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, **o'r Cabinet** gan ddweud nad oedd yn cytuno â chynnwys cytundeb Chequers neu agwedd negodi Llywodraeth y DU. Derbyniodd y Prif Weinidog, Theresa May, ei ymddiswyddiad. Mae **ei llythyr ato** yn cynnwys rhestr o bwyntiau bwled ynghylch sut y mae hi'n credu y byddai cytundeb Chequers yn cyflawni canlyniad refferendwm Brexit. Ar 9 Gorffennaf penodwyd Dominic Raab yn Ysgrifennydd Gwladol newydd.

Ar 9 Gorffennaf, **ymddiswyddodd** yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad, Boris Johnson, hefyd, a chymerwyd ei le gan Jeremy Hunt.

## Amaethyddiaeth, bwyd a physgodfeydd

Ar 8 Mehefin, **crynhodd Michel Barniers y negodiadau rhwng y DU a'r UE** ar yr adeg honno. Yn y datganiad hwnnw, tynnodd sylw at y ffaith bod cynnydd wedi'i wneud mewn nifer o feysydd ond bod angen gwaith pellach ar, ymhlith pethau eraill, gwarchod arwyddion daearyddol (a elwir hefyd yn enwau bwyd gwarchodedig), gan nodi nad yw'n ymddangos bod gan y DU safbwynt ar y mater.

Ar 18 Mehefin cyfarfu gweinidogion amaethyddiaeth a physgodfeydd yr UE yn y **Cyngor Amaethyddiaeth a Physgodfeydd** i drafod **pecyn diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ar ôl 2020** a sefyllfa'r farchnad amaethyddol. Buont hefyd yn trafod Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF), rheolaethau pysgodfeydd a'r cyfleoedd pysgota ar gyfer 2019. Cynrychiolodd y Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, George Eustice y DU a gwnaeth **ddatganiad** yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 3 Gorffennaf, lle y dywedodd:

Member states expressed a range of views, with some of them concerned about planned budgetary cuts. Member states agreed on the importance of achieving real simplification. The Commission signalled further discussion on this topic and welcomed further constructive recommendations from member states.

Dywedodd hefyd mai pysgodfeydd oedd prif ffocws y cyfarfod:

The most substantive of these was a presentation by the European Commission on the implementation of the Common Fisheries Policy (CFP) ... The Commission also gave a presentation on a regulation on the European Maritime and Fisheries Fund (EMFF), covering the period 2021-2027, outlining its intention to give member states more flexibility in managing the fund. Member states welcomed the offer of greater flexibility but requested further discussion about the Fund's budget and administration.

## Ynni a newid hinsawdd

Ar 19 Mehefin cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth y DU **Ddatganiad ar y Cyd** yn diweddar ac yn cofnodi'r cynnydd a wnaed ers y cytundeb drafft ar 19 Mawrth ar ymadawiad y DU â'r UE a'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd (Euratom).

Mae'r datganiad yn tynnu sylw at gynnydd ar Deitl IX y cytundeb drafft sy'n ymwneud ag **Euratom**. Mae'n nodi bod cytundeb ar Erthygl 79 (perchnogaeth a hawliau defnyddio a'r defnydd o ddeunyddiau ymholttol arbennig yn y DU).

## Camau gweithredu eraill gan Lywodraeth y DU

### Ansawdd aer

Gosodwyd **Memorandwm Esboniadol (PDF 39KB) ar y Rheoliadau Terfynau Allyriadau Cenedlaethol 2018 (PDF 90KB)** gerbron Senedd y DU gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Michael Gove ar 17 Mai. Mae'r Rheoliadau yn trosi Cyfarwyddeb 2016/2284 yr UE ar leihau allyriadau cenedlaethol llygryddion atmosfferig penodol. Mae'r Gyfarwyddeb yn mynnu bod allyriadau anthropogenig cyffredinol yn y DU ar gyfer pump o lygryddion aer yn cael eu lleihau islaw canran benodol o allyriadau cyffredinol a gafodd eu rhyddhau yn y flwyddyn sylfaen (2005). Mae angen bodloni'r ymrwymadau hyn mewn dau gam, o 2020 i 2029, gyda lefelau mwy llym i'w cyrraedd o 2030 ymlaen. Daeth y Rheoliadau i rym ar 1 Gorffennaf.

Ar 22 Mai, lansiodd Michael Gove **ymgyngoriad ar strategaeth ddrafft ar aer**



**glân i Loegr.** Ar ddatganoli mae'n dweud:

We are consulting here on a draft strategy developed by the UK government, setting out how we will work towards meeting these ambitious reductions in England (and where relevant across the UK). However, air quality is a devolved matter with responsibility also resting with the Scottish Government, Welsh Government and the Northern Ireland Executive. Since air pollution does not respect national boundaries, securing the necessary improvements will require action in all parts of society and across the UK.

The strategy, therefore, highlights the importance of effective co-operation with the devolved administrations and Chapter 9 briefly sets out actions already underway in Scotland, Wales and Northern Ireland to cut air pollution right across the UK.

Mae'r strategaeth ddrafft yn elfen allweddol o **gynllun 25 mlynedd Llywodraeth y DU ar yr amgylchedd**. Mae'n amlinellu polisiau i leihau llygredd aer ledled y DU a sut y bydd Llywodraeth y DU yn gweithio tuag at ymrwymïadau lleihau allyriadau'r UE 2020 a 2030 ar gyfer pum llygrydd aer a drosglwyddwyd i gyfraith y DU gan y Gyfarwydddeb Terfynau Allyriadau Cenedlaethol.

Mae'r nodau yn y strategaeth yn cynnwys haneru nifer y bobl sy'n byw mewn lleoliadau sy'n mynd uwchlaw cyfyngiadau'r WHO o ran gronynnau, gan gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd i ganiatáu i lywodraethau lleol wella ansawdd aer, gwella tanwydd domestig, mynd i'r afael ag amonia sy'n deillio o ffermio, a datblygu safon newydd ar gyfer teiars a breciau i leihau allyriadau microbeleni plastig. Wrth lansio'r ymgynghoriad, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

Through the introduction of new primary legislation, we will introduce a stronger and more coherent legislative framework for action to tackle air pollution, giving local government new powers to take decisive action in areas with an air pollution problem.

Ar 22 Mai **cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb i'r adroddiad ar y cyd** a gynhyrchir gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EFRA), Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Phwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin ar wella ansawdd aer yn dilyn eu hymchwiliad ar y cyd. Ymatebodd Llywodraeth y DU i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgorau, gan gynnwys yr argymhelliad a ganlyn:

... the Government should establish in primary legislation a requirement that UK air pollution standards are at least as high as equivalent standards in the EU.

## Ynni a newid hinsawdd

Ar 7 Mehefin, **cyhoeddodd** Adran Ymadael â'r UE (DExEU) Llywodraeth y DU a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) eu bod yn llofnodi 2 gytundeb diogelu newydd gyda'r Asiantaeth Ynni Atomig Rhyngwladol (IAEA) a fyddai'n rhoi sicrwydd i'r diwydiant niwclear sifil a phartneriaid rhyngwladol wrth i'r DU baratoi i adael Euratom. Yn ôl y datganiad i'r wasg sy'n cyd-fynd â'r cyhoeddiad:

The new agreements ensure that the IAEA retains its right to inspect all civil nuclear facilities, and continues to receive current safeguards reporting, thereby ensuring that international verification of our safeguards activity continues to be robust.

Ar 28 Mehefin cyhoeddodd BEIS **hefyd ddiweddariad chwarterol i'r Senedd ar gynnydd y Llywodraeth o ran y trefniadau i'r DU adael Cytundeb Euratom**, yr ymrwymodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Greg Clark, iddo mewn **datganiad ysgrifenedig ar 11 Ionawr**. Mae'r Diweddariad Chwarterol yn rhoi crynodeb o:

- Negodiadau'r UE ar ymadael ag Euratom;
- Cytundebau rhyngwladol;
- Sefydlu system diogelu niwclear domestig;
- Gweithredu;
- Ymchwil a hyfforddiant;
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- Materion ehangach yn y cyfnod sy'n arwain at Fawrth 2019.

Mae BEIS wedi cyhoeddi cyfres o **daflenni ffeithiau am adael ag Euratom** sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am bynciau allweddol sy'n ymwneud â gadael Euratom.

Ar 9 Gorffennaf, lansiodd Llywodraeth y DU **ymgyngoriad ar gynigion ar gyfer system diogelu niwclear newydd y DU** i ddisodli'r gyfundrefn bresennol a ddarperir gan Euratom

Ar 11 Gorffennaf **cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb** i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd ar **gynnydd y DU tuag at leihau allyriadau nwyon wedi'u fflworeiddio**. Roedd gwaith y Pwyllgor yn cynnwys ystyried effaith Brexit ar y System Nwyon wedi'u Fflworeiddio yn y DU.

## Pysgodfeydd

Ar 4 Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **Phapur Gwyn ar bysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**. Mae'r Papur Gwyn yn dweud y canlynol ynaglŷn â datganoli:

This White Paper is a UK Government policy document that discusses a range of fisheries policy matters, subject to the continuing discussions between Defra and the Devolved Administrations. The extent of the different provisions proposed for the new Fisheries Bill will vary depending on what powers already exist in different areas and what is agreed between the Administrations: some will have UK-wide extent; others will apply to England only, others to England and the Devolved Administrations that wish to adopt them. The powers concerning international relations, on access to waters and setting quota, will be exercised at UK level as they relate to reserved matters.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi dull gweithredu arfaethedig Llywodraeth y DU o ran:

- Hyrwyddo pysgodfeydd cynaliadwy;
- Cytundebau mynediad a dyranu cwotâu;
- Rheoliadau technegol Polisi Pysgodfeydd Cyffredin;
- Fframwaith newydd y DU; a
- Diwygio rheoli pysgodfeydd.

Mae Llywodraeth y DU yn gwahodd barn ar y cynigion a amlinellwyd yn y Papur Gwyn mewn ymgynghoriad 10 wythnos, sy'n dod i ben ar 12 Medi. Mae'r **datganiad i'r wasg** yn dweud:

We do not yet know the outcome of the UK's negotiations to withdraw from the EU or on a future economic partnership, and the white paper is clear that market access for fisheries products is separate to the question of fishing opportunities and access to waters

## Gwarchod natur

Ar 26 Mehefin cafodd **Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018** Gydsyniad Brenhinol. Yn dilyn gwelliant i'r Bil yn ystod ei daith drwy Senedd y DU, mae'r Ddeddf bellach yn cynnwys adran ar **gynnal egwyddorion amgylcheddol (adran 16)**. Dywedodd Llywodraeth y DU yn ystod taith y Bil drwy'r senedd y byddai'r rhan hon o'r Ddeddf yn ymwneud â Lloegr a materion a gedwir yn ôl yn unig.

Mae'r **gwelliant y cytunwyd arno** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, o fewn cyfnod o chwe mis ar ôl pasio'r Bil ymadael, gyhoeddi Bil drafft a

fyddai'n rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi datganiad polisi mewn perthynas â chymhwyso a dehongli cyfres o egwyddorion amgylcheddol. Rhaid i'r Bil drafft hefyd gynnwys darpariaethau ar gyfer sefydlu awdurdod cyhoeddus a allai gymryd camau gorfodi cymesur (gan gynnwys camau cyfreithiol) os ystyrir nad yw un o Weinidogion y DU yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

Rhaid i'r set o egwyddorion amgylcheddol a gynhwysir yn y Bil drafft gynnwys y canlynol:

1. Yr egwyddor ragofalus i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Amgylchedd;
2. Yr egwyddor o gamau ataliol i osgoi difrod amgylcheddol;
3. Yr egwyddor y dylai difrod amgylcheddol, fel blaenoriaeth, gael ei unioni yn llygad y ffynnon;
4. Yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu;
5. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy;
6. Yr egwyddor bod yn rhaid integreiddio gofynion diogelu'r amgylchedd i ddiffinio a gweithredu polisiau a gweithgareddau;
7. Mynediad cyhoeddus i wybodaeth amgylcheddol;
8. Cyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau amgylcheddol; a
9. Mynediad i gyfiawnder mewn perthynas â materion amgylcheddol.

Yn ystod taith y Bil drwy'r senedd, gofynnwyd a oedd angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer y Bil ar y sail ei fod yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Cafodd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar y Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ei basio cyn i'r newidiadau hyn gael eu gwneud (gweler adran 7, Camau gweithredu eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol - fframweithiau'r DU i gael rhagor o fanylion).

Yn ystod y **ddadl fer ar y gwelliant** ar 18 Mehefin dywedodd yr Arglwydd Callanan, ar ran Llywodraeth y DU, y byddai'r gwelliant a'r Bil drafft dilynol yn berthnasol i Loegr ac i faterion a gedwir yn ôl yn unig. Dywedodd yr Arglwydd Callanan hefyd y byddai Llywodraeth y DU yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â'r corff newydd, gan gynnwys a ydynt am fabwysiadu dull tebyg neu, yn wir, ddull gwahanol eu hunain.

## Gwastraff

Ar 22 Mai **cytunodd Aelod-wladwriaethau'r UE** ar reolau newydd yn ymwneud

â'r economi gylchol yn seiliedig ar **Becyn Economi Gylchol Rhagfyr 2015** y Comisiwn Ewropeaidd. Nod y rheolau yw atal gwastraff a chynyddu ailgylchu. Ar 29 Mawrth, cadarnhaodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU

(Defra) **y byddai'n cefnogi'r pecyn**. Dywedodd Is-ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Thérèse Coffey:

I want the UK to lead the way in driving global resource efficiency and that's why as well as backing the EU's Circular Economy Package we have committed to publishing a new Resources and Waste Strategy in 2018.

Many of its aims will be consistent with the EU package and as we leave the EU we'll be able to explore how we go even further to help achieve our aim of leaving our environment in a better state than we inherited it.

## Offerynnau statudol

Mae Llywodraeth y DU wedi dechrau **cyhoeddi ei hofferynnau statudol (OS) negyddol arfaethedig** o dan *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018*. Cyn i'r OS gael eu gosod yn ffurfiol gerbroon Senedd y DU, maent yn destun proses sifftio. Bydd pwyllgor newydd yn Nhŷ'r Cyffredin a'r Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth yn Nhŷ'r Arglwyddi yn ystyried addasrwydd y '**weithdrefn negyddol**'. Bwriedir sefydlu proses debyg yn y Cynulliad ar gyfer OS negyddol a gynigir gan Lywodraeth Cymru o dan y Ddeddf (gweler adran 7 Camau gweithredu eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol - Craffu ar Reoliadau a wneir o dan *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018*)

## Cynllun Adrannol Sengl Defra

Ar 23 Mai, diweddarodd Defra ei **chynllun adrannol sengl**. Pedwar prif amcan Defra yw:

- Sicrhau trefniadau pontio di-drafferth i fframweithiau rheoleiddio a chyflawni newydd ar ôl inni adael yr UE;
- Trosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf amgylchedd naturiol wedi'i ddiogelu a'i gyfoethogi ar gyfer y dyfodol;
- Bod yn arweinydd byd ym meysydd bwyd a ffermio, gydag economi wledig

ffyniannus;

- Dod yn adran fwyaf effeithiol ac effeithlon y llywodraeth.

## Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

### Ansawdd aer

Daeth **ymgyngoriad Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ymylon ffyrdd** i ben ar 19 Mehefin. Bydd y cynigion yn rhan o gynllun Llywodraeth Cymru a fydd yn atodol i **gynllun DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ymylon ffyrdd 2017** ac yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lleihau crynodiadau NO<sub>2</sub> o amgylch ffyrdd lle mae'r lefelau uwchlaw cyfyngiadau cyfreithiol yr UE.

Daeth **ymgyngoriad Llywodraeth Cymru ar fframwaith parthau aer glân** hefyd i ben ar 19 Mehefin. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi sut y gellir sefydlu parthau awyr glân mewn rhannau o Gymru i fynd i'r afael â'r angen i leihau allyriadau a sicrhau eu bod o fewn terfynau cyfreithiol yr UE.

### Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 6 Mehefin cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU **gyfarfod Brexit allweddol** gyda ffermwyr, y diwydiant pysgota a busnesau. Cynhaliwyd y cyfarfod ar y cyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Alun Cairns.

Ar 12 Mehefin cyhoeddodd Lesley Griffiths **ddatganiad ysgrifenedig ar ei hymweliad â Chatalonia a Gwlad y Basg**. Diben yr ymweliad oedd rhannu profiadau, dysgu o fentrau clystyrau bwyd ac ymchwilio i gyfleoedd i gydweithredu yn y dyfodol.

Ar 14 Mehefin, gwnaeth y Prif Weinidog, Carwyn Jones, **araith ar Brexit mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan UK in a Changing Europe**. Rhybuddiodd am y posibilrwydd gwirioneddol o sefyllfa drychinebus lle na fyddai bargaen ynglŷn â Brexit, a dywedodd y dylai Gweinidogion y DU ddadlau dros berthynas ddeinamig a chadarnhaol â Marchnad Sengl yr UE. Er iddo gydnabod nad oedd model Norwy yn berffaith, dywedodd ei fod yn caniatáu rhywfaint o ryddid i symud y gallai'r rhan fwyaf o bobl ei dderbyn. Dywedodd:

... it may be possible, despite the EU's rhetoric about cherry picking, to agree that single market alignment will not extend fully to some ser-

vice sectors, provided we pay a price for that in terms of market access – just as the EFTA countries chose to exclude agriculture and fisheries from the EEA, so they could protect and subsidise them.

But for goods – both manufacturing and indeed for our agriculture and fisheries – it is probably a price worth paying to both safeguard our economy, while respecting the result of the referendum.

Ar 18 Mehefin cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd £2.15 miliwn o'i Chronfa Bontio yr UE gwerth £50 miliwn yn cael ei **ddarparu i gefnogi'r sector cig coch**. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyllid i gefnogi ffermwyr i nodi gwelliannau i'w busnesau er mwyn eu helpu i ddod yn fwy cystadleuol ac mewn sefyllfa well i fasnachu'n broffidiol ar ôl Brexit;
- Cyllid ar gyfer prosiect i gymryd lle mewnforio er mwyn helpu i nodi a sicrhau cadwyni cyflenwi yn y DU ac annog cwmnïau yn yr UE i ymsefydlu yng Nghymru.

Gan siarad cyn ei araith yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Undeb Amaethwyr Cymru yn Aberystwyth, dywedodd Carwyn Jones:

Brexit presents a series of challenges and opportunities for our agriculture and fisheries industries. The funding I am announcing today from our EU Transition Fund will provide vitally needed support. As a Government we will do all we can to help these important industries prepare for a post-Brexit world.

Ar 22 Mehefin cyhoeddodd Carwyn Jones a Phrif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon, **ddatganiad ar y cyd** ar drothwy cyfarfod Cyngor Prydain Iwerddon yn Guernsey yn galw ar Lywodraeth y DU i ymrwymo i aros yn rhan o'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau yn ei **Phapur Gwyn ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol** (a gyhoeddwyd ar 12 Gorffennaf):

We call on the UK Government in its forthcoming White Paper to commit to staying inside the Single Market and Customs Union recognising that this will require continued alignment with the EU regulatory environment.

The aim should be a 'Norway Plus' model on the basis that the red lines set out by the Prime Minister in her Lancaster House speech in January 2017 are not consistent with the national interest.

Ar 10 Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Phapur Gwyrdd, **Brexit a'n tir**. Mae'r ymgynghoriad yn parhau tan 30 Hydref. Mae'r cynigion yn cynnwys rhaglen rheoli tir newydd, gan gynnwys ffermio a choedwigaeth, i ddisodli'r PAC yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. Mae'r cynigion yn adeiladu ar **bum egwyddor**

Ysgrifennydd y Cabinet (manyilir ymhellach ar y rhain ar dudalen 20 y Papur Gwyrdd):

- Rhaid inni **gadw rheolwyr tir ar y tir**;
- Mae **cynhyrchu bwyd yn** hollbwysig i'n cenedl;
- Bydd cymorth yn y dyfodol yn canolbwyntio ar **ddarparu nwyddau cyhoeddus** i holl bobl Cymru;
- Dylai'r **holl reolwyr tir** gael y cyfle i elwa o gynlluniau newydd;
- Mae angen **sector amaethyddol ffyniannus a chydnerth** arnom yng Nghymru, beth bynnag fydd natur Brexit.

Mewn **datganiad ysgrifenedig** ar 10 Gorffennaf, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd ymgynghoriad manwl pellach yn cael ei gynnal yn y gwanwyn ac mai ei "hamcan yw cyhoeddi'r Bil cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn yn 2021." Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r sector cyfan erbyn 2025.

Mae'r Papur Gwyrdd yn cynnig y dylai'r rhaglen rheoli tir newydd gynnwys dwy elfen o gymorth:

- **Cynllun Cadernid Economaidd** (Pennod 5) - buddsoddiad ar gyfer gweithgareddau economaidd, yn enwedig cynhyrchu bwyd a phren. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y bydd y cynllun Cadernid Economaidd yn darparu buddsoddiad wedi'i dargedu i reolwyr tir a'u cadwyni cyflenwi. Bydd y cynllun yn rhoi cymorth i: 1) gynyddu potensial y farchnad; 2) ysgogi gwelliannau mewn cynhyrchiant; 3) arallgyfeirio; 4) gwella'r broses o reoli risg; a 5) gwella cyfnewid gwybodaeth a sgiliau.
- **Cynllun Nwyddau Cyhoeddus** (Pennod 6) - cymorth uniongyrchol ar gyfer darparu nwyddau cyhoeddus, yn arbennig ar gyfer yr amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y bydd yn darparu ffrwd incwm newydd ar gyfer rheolwyr tir ac yn gwneud "cyfraniad sylweddol" i fynd i'r afael â newid hinsawdd, dirywiad bioamrywiaeth, ansawdd aer anffafriol ac ansawdd dŵr gwael.

Mae'r Papur Gwyrdd yn tynnu sylw at y ffaith bod cysylltiadau cryf rhwng y ddau gynllun ac y bydd angen eu dylunio a'u gweithredu ar y cyd. Bydd gan ffermwyr fynediad i'r ddwy ffrwd ariannu.

Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio gwerth Cyswllt Ffermio o ran pontio



i'r cynllun newydd yn enwedig ei gyngor ar newid busnes. Ochr yn ochr â newidiadau i'r cynlluniau taliadau, dywed Llywodraeth Cymru y bydd yn darparu gwell gwasanaethau cynghori.

## Gwarchod Natur

Ar 19 Mehefin cyhoeddodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Hannah Blythyn, ddatganiad ysgrifenedig: **Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy**. Cafwyd 17,391 o ymatebion i'r **ymgynghoriad**, a gynhaliwyd y llynedd. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar 56 o gynigion yn cwmpasu ystod eang o feysydd polisi, gan gynnwys coedwigaeth, tirweddau dynodedig, mynediad i'r awyr agored gan gynnwys yr arfordir a dyfroedd mewndirol, y môr a physgodfeydd, dŵr, gwastraff, rheoli tir, amaethyddiaeth a rheoli maglau (fel y crynhoir yn yr **erthygl ar flog y Gwasanaeth Ymchwil**).

Disgwyliwyd i'r ymgynghoriad helpu i benderfynu a oes angen deddfwriaeth newydd yng Nghymru. Yn ei datganiad, cyhoeddodd y Gweinidog y bydd cam nesaf y broses yn "paratoi amserlen briodol ar gyfer datblygu polisi dros y tymor byr a hir, yng nghyd-destun amcanion ehangach Llywodraeth Cymru ac wrth i'r DU adael yr UE". Disgwylir i ddatganiad pellach ddilyn ar y blaenoriaethau.

## Coedwigaeth a choetir

Ar 26 Mehefin gwnaeth Hannah Blythyn **ddatganiad yn y Cynulliad ar strategaeth coetiroedd**. Yn ystod ei datganiad, lansiodd y Gweinidog fersiwn newydd o **Strategaeth Coetiroedd i Gymru** Llywodraeth Cymru. Dywedodd mai un o'r rhesymau y cafodd y strategaeth ei hailwampio yw "sichrau bod gan y sector coedwigaeth bolisiau clir a diweddar i'w helpu i weithio gyda'i gilydd i wynebu'r her hon [sef Brexit]". Dywedodd hefyd y byddai Lesley Griffiths yn cyflwyno cynigion ym mis Gorffennaf ar gyfer "diwygio ar ôl Brexit a fydd yn ceisio chwalu'r rhwystrau rhwng amaethyddiaeth a choedwigaeth" (gweler adran 4 Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru - Amaethyddiaeth a bwyd uchod).

## Lles anifeiliaid

Ar 19 Mehefin gwnaeth Lesley Griffiths **ddatganiad yn y Cynulliad ar les anifail cysur**. Trafododd ei gwaith gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill i sichrau bod anifeiliaid yn cael eu cydnabod yn gyfreithiol fel bodau ymdeimladol ar ôl i'r DU adael yr UE. Dywedodd "Mae ein safbwynt yn glir: rydym yn cytuno'n llwyr bod anifeiliaid yn fodau ymdeimladol ac mae'r

posibilrwydd na chaiff hynny ei adlewyrchu mewn deddfwriaeth yn destun pryder". Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud drwy'r **Bil Drafft Lles Anifeiliaid (Dedfrydu a Chydnabyddiaeth o Ymdeimladoldeb) 2017** a phwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd cydweithio yn y maes hwn:

Mae'n bwysig iawn bod gennym ni gyfundrefn ddedfrydu gymharol ledled Cymru a Lloegr. Credaf fod hynny'n bwysig fel bod eglurder gan yr asiantaethau gorfodi, bod gan y llysoedd eglurder a hefyd bod gan y cyhoedd yr eglurder hwnnw. Credaf felly, ei bod yn bwysig iawn ein bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU yn hynny o beth.

Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd y bydd yn cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer yr agweddau hynny ar y Bil a fydd yn berthnasol i Gymru.

## Ynni a newid hinsawdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddatganiadau sy'n berthnasol i bolisi ynni a newid hinsawdd yr UE.

Ar 28 Mehefin, **cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ysgrifenedig** gan osod targedau lleihau allyriadau interim Llywodraeth Cymru a'r ddwy gyllideb garbon gyntaf yn unol â gofynion *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*.

Ar 3 Gorffennaf cyhoeddodd Lesley Griffiths **ddatganiad ysgrifenedig** yn cyhoeddi **ymgyngoriad ar bolisi echdynnu petroliwm yng Nghymru**. Mae'r ddogfen ymgynghori yn dweud:

Yn yr ymgynghoriad hwn, gofynnir am adborth rhanddeiliaid ynghylch ein cynigion i weithredu polisi o beidio â chaniatáu unrhyw drwyddedau petroliwm newydd yng Nghymru, na chefnogi ffracio, yn unol â'n hymrwymiad yn Symud Cymru Ymlaen (2016-2021).

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates, hefyd wedi cyhoeddi datganiadau ar **Ymweliad Llywodraeth y DU â Thrawsfynydd (SMR) a Lansio Bargaen y Sector Niwclear (28 Mehefin)** a **Wylfa Newydd (5 Mehefin)**, yng ngoleuni **Cyhoeddiad Llywodraeth y DU** ei bod wedi dechrau negodiadau ar y prosiect.

## Pysgodfeydd

Ar 18 Mehefin cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n defnyddio rhywfaint o Gronfa Pontio 'r UE gwerth £50 miliwn, dros y ddwy flynedd nesaf, i **gefnnogi'r**

**diwydiannau pysgota a dyframaeth** i ddod o hyd i farchnadoedd newydd a pharatoi ar gyfer masnachu yn y dyfodol y tu allan i'r UE. Ni nodwyd unrhyw ffigur yn y cyhoeddiad. Dyma'r un cyhoeddiad a ymrwymodd £2.15 miliwn i'r sector cig coch (a drafodir uchod yn adran 4 Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru - Amaethyddiaeth a bwyd).

Ar 3 Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru brosiect newydd gwerth £1 filiwn, sef **Prosiect Datblygu Marchnad Bwyd Môr**. Ariennir y prosiect yn rhannol drwy'r

Gronfa' Môr a Physgodfeydd Ewrop ac mae'n anelu at ddatblygu'r farchnad bwyd môr sy'n cael ei ddal a'i brosesu'n lleol a chynorthwyo capasiti'r sector i ddeall y farchnad.

## Camau gweithredu gan Lywodraeth yr Alban

### Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 23 Mai, cynhaliodd y Gweinidog dros Negodiadau'r DU ar Le yr Alban yn Ewrop, Michael Russell, **drafodaeth bord gron gyda rhanddeiliaid** ar effaith Brexit ar y diwydiant bwyd a diod.

Ar 20 Mehefin, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi Wledig a Chysylltedd, Fergus Ewing, gynigion ar gyfer cyfnod pontio tair i bum mlynedd ar gyfer ffermio a chymorth gwledig yn yr Alban. Mae'r ymgynghoriad, sy'n dwyn y teitl **Stability, certainty and simplicity in rural support** yn nodi'r cynigion a ganlyn:

Our proposals seek to generate discussion within Scotland's farming and crofting communities. They aim to create a transition period of up to five years as we move from the current funding and support approaches in the existing Direct Payments and Scottish Rural Development Programme (SRDP) to developing and implementing a new rural policy framework for Scotland. Should resources allow, that period might also usefully enable the testing and piloting of new approaches.

### Pysgodfeydd

Ar 5 Mehefin cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban **adroddiad ar effaith Brexit ar ddiwydiannau bwyd môr yr Alban a'r DU**. Mae'r adroddiad yn ymchwilio

i newidiadau damcaniaethol i dri ffactor sy'n hyrwyddo'r fasnach bwyd môr ryngwladol: tariff, mesurau nad ydynt yn dariffau a chwotâu pysgota. Mae'n awgrymu y byddai masnach rydd barhaus o fudd i ddiwydiannau'r Alban a'r DU, a byddai manteision posibl cynnydd mewn cwotâu yn lleihau yn sgil cynnydd mewn tariffau a mesurau nad ydynt yn dariffau.

## Gwarchod natur

Ar 1 Mehefin cyhoeddodd Bord Gron Llywodraeth yr Alban ar yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd **adroddiad ar lywodraethu amgylcheddol yn yr Alban ar ôl Brexit**. Mewn **ymateb i'r adroddiad**, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir, Roseanna Cunningham:

I have not yet concluded what the best approach in Scotland would be, but have not ruled out the creation of a new function for an existing body or a new statutory body to deliver the required level of independent scrutiny.

Ar 29 Mehefin, lansiodd Llywodraeth yr Alban **ymgyngoriad ar strategaeth amgylcheddol newydd**. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am ymatebion ar weledigaeth ddrafft lefel uchel, sy'n nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd drwy bolisiau amgylcheddol a newid hinsawdd yr Alban a'r gwaith sydd ei angen yn y dyfodol. Disgwylir i'r strategaeth derfynol gael ei chyhoeddi tua diwedd 2018.

## Camau gweithredu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

### Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 4 Mehefin cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus (PDF 661KB)** fel rhan o'i **ymchwiliad i ailfeddwl am fwyd**. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen strategaeth fwyd newydd ar ôl Brexit sy'n adlewyrchu dull system gyfan, a bod y graddau y mae Rheoliadau'r UE wedi cyfyngu ar arferion caffael wedi'u gorliwio.

### Ynni a newid hinsawdd

- Ar 4 Gorffennaf bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Lesley Griffiths a'r Gweinidog Tai ac Adfywio, Rebecca Evans, wrth gwblhau'r broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer ei **ymchwiliad i dai carbon isel**.

- **Trafododd y Pwyllgor** gyllid yn y dyfodol ar gyfer rhaglenni effeithlonrwydd ynni **Arbed** a **Nyth** Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit, argaeledd llafur medrus yn y diwydiant adeiladu a'r angen i sicrhau bod Cymru'n ymwybodol o arferion da a safonau technegol a ddatblygir yn yr UE.

## Pysgodfeydd

Mae'r Pwyllgor yn cynnal **ymchwiliad i effaith Brexit ar bysgodfeydd**. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghoriad ysgrifenedig, sesiwn panel arbenigol a gweithdy rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr o'r sector pysgota a gynhaliwyd yn Aberdaugleddau. Bydd gwaith y Pwyllgor ar yr ymchwiliad hwn yn llywio ei ymateb i'r **ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Defra ar Bysgodfeydd**.

## Gwarchod natur

Cynhaliodd y Pwyllgor **ymchwiliad byr i lywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit**. Roedd hyn yn cynnwys panel arbenigol a gweithdy rhanddeiliaid. Cafodd ei adroddiad, sy'n cynnwys naw argymhelliad, ei **gyhoeddi ar 27 Mehefin**. Anfonwyd yr adroddiad at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (mewn ymateb i ymgynghoriad Defra ar **egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu**).

## Fframweithiau'r DU

Cynhaliodd y Pwyllgor **ymchwiliad byr i fframweithiau cyffredin y DU ar gyfer amaethyddiaeth a'r amgylchedd ar ôl Brexit**. Roedd hyn yn cynnwys ystyried **ymchwil gan Dr Victoria Jenkins** Athro Cyswllt yn Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton, Prifysgol Abertawe, a gwblhawyd fel rhan o **gynllun cymrodoriaeth y Gwasanaeth Ymchwil**. Clywodd y Pwyllgor hefyd gan ddau **banel arbenigol**. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

# Camau gweithredu eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 13 Mehefin atebodd Lesley Griffiths **gwestiynau yn y Cyfarfod Llawn** ar nifer o faterion, gan gynnwys cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer adolygu ei chynllun gweithredu bwyd a diod yng ngoleuni Brexit. Roedd cwestiynau eraill a godwyd yn cynnwys sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu annog cynlluniau amaeth-amgylchedd ac a fydd ei pholisi amaethyddol ar ôl Brexit yn cynnwys

taliadau y pen ar gyfer ffermydd ucheldir. Ategodd Ysgrifennydd y Cabinet ei hymrwymiad i sicrhau nad yw Cymru yn colli ceiniog mewn perthynas â chyllid ar ôl Brexit. Dywedodd y bydd materion megis taliadau y pen ar gyfer ffermydd yr ucheldir, arallgyfeirio i arddwriaeth a chyfnod silff cig Cymru yn cael eu harchwilio mewn Papur Gwyrdd ar ddyfodol amaethyddiaeth yn gynnar ym mis Gorffennaf (cyhoeddwyd y Papur Gwyrdd ar 10 Gorffennaf, gweler adran 4 Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru - Amaethyddiaeth a bwyd).

Ar 27 Mehefin, rhoddodd Lesley Griffiths **dystiolaeth lafar** i'r Pwyllgor Cyllid fel rhan o'i **ymchwiliad i baratodau ar gyfer disodli cyllid yr UE**. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet **bapur (PDF 1.04MB)** gan roi manylion am ffrydiau cyllido'r UE sy'n dod o fewn ei phortffolio a sut y gellid disodli'r rhain yn y dyfodol. Mae'r papur yn nodi bod **bron i hanner y £680 miliwn** o gyllid blynyddol yr UE a ddaw i Gymru yn ymwneud â meysydd sy'n dod o fewn ei phortffolio. Ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthwynebiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio Fformiwla Barnett i ddyrannu cyllid yn y dyfodol yn y maes hwn. Pwysleisiodd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cael llawer o eglurder ynghylch trefniadau cyllido gan Lywodraeth y DU a'i bod yn **"ddyddiau cynnar" o ran y trafodaethau**.

## Pysgodfeydd

Yn ystod sesiwn y Pwyllgor Cyllid gyda Lesley Griffiths ar 27 Mehefin, a drafodwyd uchod, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio tuag at **raglen bolisi pysgodfeydd yn y dyfodol**, meddai:

...we need to look at the functions that are currently carried out within a very limited budget. We need to look at upgrading technical systems to be able to manage fishing effort post EU exit. We have to have it in a much more coordinated fashion, I think. I know additional resources are going to be required to do a great deal of the work that we need to do: scientific research, for instance

Ar 3 Gorffennaf cynhaliwyd dadl yn y Cynulliad ar **Brexit a'r Diwydiant Pysgota**. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet bum thema allweddol a ddatblygwyd gan **Is-grŵp Moroedd ac Arfordir** Llywodraeth Cymru, a fydd yn "arwain datblygiad polisi pellach ac yn cyfrannu at gyflawni ein gweledigaeth gyffredin o foroedd cynhyrchiol, iach a biolegol amrywiol." Y themâu hyn yw:

cynllunio i wneud y defnydd gorau o'n moroedd, sy'n cynnwys cyflawni'r cynllun morol; stiwardiaeth effeithiol o'n moroedd a'n haddodau naturiol, gan gynnwys ein cyfraniad at rwydwaith o ardaloedd morol gwarchoddedig;

parhau i fod yn bartneriaid cyfrifol yn y DU, gan gynnwys gweithio'n agos gyda'n partneriaid ledled y DU o ran gwyddoniaeth a gorfodi, a byddwn yn gweithio gyda'r rhai hynny yr ydym ni'n rhannu ardal forol â nhw;

sicrhau bargaen decach ar gyfer y diwydiant pysgota, gan gynnwys **ail-fantoli cyfran y DU o'r cwota pysgod** a datblygu cyfleoedd mewn marchnadoedd domestig a thramor; a

sefyll ar ein traed ein hunain drwy wella ein gallu o ran gwyddoniaeth forol a chasglu data, ac adolygu ein deddfwriaeth pysgodfeydd i ymgorffori rheolaeth gynaliadwy o egwyddorion adnoddau naturiol, a sicrhau eu bod yn addas i'w diben.

Roedd y cynnig yn y ddadl yn cynnig bod y Cynulliad yn cefnogi'r themâu allweddol hyn, a bod y Cynulliad yn "ailldatgan ei gefnogaeth dros fynediad llawn a dirwystr i farchnad sengl yr UE, gan gynnwys ar gyfer bwyd a physgodfeydd." Cytunodd y Cynulliad ar welliannau sy'n pwysleisio cynrychiolaeth gref o Gymru mewn trafodaethau masnach, pwysigrwydd y sector pysgota i gymunedau arfordirol, a'r angen am gymorth pellach gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pysgodfeydd a'r amgylchedd morol.

Llywiwyd y ddadl gan adroddiad diweddar ar **oblygiadau Brexit i gyfleoedd pysgota yng Nghymru**, gan **Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**, a gomisiynwyd gan Lesley Griffiths. Pwysleisiodd yr adroddiad strwythur unigryw diwydiant pysgota Cymru yn y DU, a'r risg o gael ei adael ar ôl yn y negodiadau rhwng y DU a'r UE oherwydd gofynion buddiannau pysgota mwy y DU.

## Fframweithiau'r DU

Ar 14 Mehefin, **ysgrifennodd** y Llywydd, Elin Jones, at Carwyn Jones ynghylch y gwelliant i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i warchod egwyddorion amgylcheddol yr UE (gweler adran 3 Camau gweithredu eraill Llywodraeth y DU - Cadwraeth natur). Gofynnodd y llythyr i Lywodraeth Cymru gadarnhau cyn gynted â phosibl a oedd yn bwriadu cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r gwelliant ai peidio. Cafodd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ei basio cyn i'r gwelliant hwn gael ei wneud.

Ar 19 Mehefin, **ysgrifennodd (PDF 158KB)** Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Mick Antoniw, at Mark Drakeford ynghylch y gwelliant. Gofynnodd y llythyr i Ysgrifennydd y Cabinet egluro a oedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o drafodaethau â Llywodraeth y DU ar oblygiadau'r

gwelliant ac a oeddent yn credu bod ganddo'r potensial i dorri'r **Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin (PDF 125KB)**.

Derbyniodd y Pwyllgor **ymateb i'w llythyr (PDF 42KB)** ar yr un diwrnod. Mae'r llythyr yn nodi:

Mae Llywodraeth y DU yn gwbl glir mai i Loegr yn unig, neu i faterion a gedwir yn ôl, y bydd y Bil drafft y bydd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ei lunio yn gymwys. At hynny, mae'n ofynnol, yn ôl y gwelliant i'r Bil nodi cyfres o egwyddorion amgylcheddol trawsbynciol. Nid yw'r gwelliant yn gorfodi Llywodraeth y DU i lunio Bil sy'n nodi fframwaith deddfwriaethol mewn perthynas ag un o'r meysydd polisi penodol a restrir yn yr Atodiad i'r Cytundeb Rhynglywodraethol.

Felly, ar y sail hon, nid wyf o'r farn ei bod hi'n bosibl y gallai'r gwelliant dorri'r Cytundeb Rhynglywodraethol. Fodd bynnag, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gadw mewn cysylltiad agos â chydweithwyr Llywodraeth y DU wrth iddynt ddatblygu'r Bil drafft, ac yn eu hatgoffa bod angen sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cytundeb.

Ar 21 Mehefin **ysgrifennodd Mick Antoniw yn ôl (PDF 153KB)** at Mark Drakeford yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch pam bod y ffaith mai dim ond i Loegr y bydd y Bil drafft yn gymwys yn golygu na fyddai achos posibl o dorri'r Cytundeb Rhynglywodraethol, o gofio bod y cytundeb yn nodi bod y cyfyngiad ar ddeddfu mewn meysydd polisi a fydd yn yn ddarostyngedig i fframweithiau deddfwriaethol hefyd yn gymwys i Loegr.

Ar 5 Gorffennaf **ymatebodd (PDF 198KB)** Mark Drakeford i Mick Antoniw yn datgan bod y Cytundeb Rhynglywodraethol a Rheoliadau adran 12 yn ymwneud â rhewi pwerau ond yn berthnasol i feysydd polisi a nodir fel rhai lle mae angen fframweithiau cyffredin deddfwriaethol o fewn y 24 maes polisi y cytunwyd arnynt. Mae Mark Drakeford yn dadlau nad yw'r maes polisi perthnasol "ansawdd amgylcheddol" yn debygol o gael ei gwmpasu gan unrhyw Reoliadau adran 12 posibl.

Pan **ymdangosodd Lesley Griffiths gerbron y Pwyllgor Cyllid** ar 27 Mehefin, trafododd fframweithiau'r DU ar gyfer amaethyddiaeth a lles anifeiliaid. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod sgysrsiau manwl yn cael eu cynnal ar Fil Amaethyddiaeth Defra yn y DU ar lefel swyddogol gan y disgwylir i hyn roi effaith



i rai agweddau deddfwriaethol ar y fframweithiau. Aeth ymlaen i ddweud bod trafodaethau fframwaith wedi canolbwyntio ar sut y gall llywodraethau gydweithio i ddod i sefyllfa gyffredin neu sefyllfa wahanol sy'n cael ei deall a'i chydabod a bod unrhyw oblygiadau i rannau eraill o'r DU yn cael eu deall. Dywedodd fod lles anifeiliaid a physgodfeydd yn feysydd lle mae cydweithio wedi'i hen sefydlu ac mae'r mecanweithiau hyn yn cael eu ffurfioli a'u defnyddio fel model.

## Craffu ar Reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Ar 10 Gorffennaf cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad **Craffu ar y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: materion gweithredol (PDF 910KB)**. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion ynghylch y broses sifftio ar gyfer rhai Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf gan Weinidogion Cymru a chraffu ar Reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig.

## Masnach

Yn dilyn y cyhoeddiad bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu gweithgor mewn cytundeb masnach ar fargen ar ôl Brexit gydag Awstralia, **ysgrifennodd (PDF 222KB)**, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at Ken Skates i ofyn a oedd Llywodraeth Cymru yn rhan o'r trafodaethau hyn. Yn ei **ymateb i'r Pwyllgor (PDF 208KB)**, ar 15 Mai, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

Yn y cyfamser, y mae wedi sefydlu nifer o Weithgorau Masnachu ag amrywiaeth o drydydd gwledydd, gydag Awstralia'n un o'r rheini. Nid yw'r Adran Fasnach Ryngwladol hyd yma wedi gwahodd swyddogion Llywodraeth Cymru i gymryd rhan yn y Gweithgor Masnach rhwng Awstralia-DU ac nid yw wedi ymgynghori â ni ar ei waith na rhannu allbynnau ei waith â'm swyddogion nac â finne.

**Ysgrifennodd (PDF 153KB)**, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at Weinidog Polisi Masnach y DU ar y pryd, Greg Hands, i ofyn iddo am waith y gweithgorau masnach a gofyn am eglurder ynghylch sut y byddai barn y gweinyddiaethau datganoledig yn cael eu bwydo i'r grwpiau hyn. **Atebodd (PDF 98KB)**, y Gweinidog ar 11 Mehefin. Yn ei lythyr dywedodd:

We have established 14 Trade Working Groups across 21 countries, to explore the best ways of progressing our trade and investment relationships across the world. These working groups include engagement with the United States, the Andean Community (covers Peru,

Colombia and Ecuador), Australia, Canada, China, the Gulf Cooperation Council (GCC - comprising Bahrain, Kuwait, Oman, Qatar, Saudi Arabia and the UAE), Israel, India, Japan, Mexico, New Zealand, Norway, Turkey and South Korea. In addition to seeking continuity for our existing EU trade agreements (where these are in place), these working groups also provide a forum to prepare for the negotiation of wholly new Free Trade Agreements (FTAs) with key partners as we leave the EU.

International relations is of course a reserved matter. That is why these working groups are delivered by the UK Government on behalf of the whole of the UK. Having said that, we are keen that the Devolved Administrations have a role supporting preparations for the negotiation of future trade agreements. It is precisely for this reason that my Department has established a programme of work with the Devolved Administrations to facilitate how your Government and the other Devolved Administrations can inform the development of an independent UK trade policy over the course of 2018, particularly where trade interacts with areas of devolved competence.

## Camau gweithredu gan Senedd y DU

### Ansawdd Aer

Ar 13 Mehefin, **[lansiodd Is-Bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE yn Nhŷ'r Arglwyddi ymchwiliad untro](#)** i weithrediad Llywodraeth y DU o **[Gyfarwyddeb ansawdd aer yr UE](#)**. Mae'r ymchwiliad yn dilyn **[penderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd](#)** i gyfeirio Llywodraeth y DU at Lys Cyfiawnder Ewrop ynghylch achosion parhaus o dorri terfynau'r UE ar gyfer nitrogen deuocsid. **[Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth](#)** gan Client Earth a phanel o gynrychiolwyr awdurdodau lleol. Ymchwiliodd y sesiwn i rwystrau rhag gweithredu'r Gyfarwyddeb, canlyniad posibl yr achos llys yn sgil Brexit, a ffyrdd o ddwyn Llywodraeth y DU i gyfrif ar ôl Brexit. **[Ysgrifennodd y Pwyllgor \(PDF 97KB\)](#)** at Michael Gove yn dilyn y sesiwn.

Ymdriniwyd â'r cwestiwn o sut i gynnal a gorfodi safonau ansawdd aer yr UE ar ôl Brexit yn gynharach eleni mewn **[adroddiad ar y cyd ar ansawdd aer](#)** gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Phwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin. Mae'r argymhellion yn cynnwys datblygu cynllun cymorth ansawdd aer cenedlaethol, sy'n ymgorffori'r hawl i aer glân yn neddfau'r DU, gan lansio ymgyrch iechyd genedlaethol sy'n amlygu peryglon llygredd aer, a chyflwyno dyddiad cau ar gyfer gwerthu ceir petrol a diesel confensiynol. Mae ymateb Llywodraeth y DU

i'r adroddiad i'w weld yn adran 3 Camau gweithredu eraill gan Lywodraeth y DU - Ansawdd Aer.

Ar 28 Mehefin cynhaliodd Tŷ'r Cyffredin **ddadl y meinciau cefn** ar yr adroddiad ar y cyd ar ansawdd aer. Penderfynodd yr Aelodau alw ar Lywodraeth y DU i fabwysiadu argymhellion yr adroddiad yn ei strategaeth aer glân.

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 22 Mai cafwyd dadl yn Nhŷ'r Arglwyddi ar **effaith Brexit ar ffermwyr defaid**. Bu'r Aelodau'n craffu ar baratoadau Llywodraeth y DU ar gyfer effeithiau Brexit ar y sector. Roedd y pynciau'n cynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer cynnydd o 50% mewn tariffau, cydnabyddiaeth o'r heriau arbennig a'r cyfleoedd arallgyfeirio prin i ffermydd yr ucheldir mewn cynlluniau taliadau yn y dyfodol, y defnydd o fformiwla Barnett, ac allforio anifeiliaid byw. Awgrymodd y Chwip, y Farwnes Vere o Norbiton, y gallai pwysigrwydd ucheldiroedd o ran gwella bioamrywiaeth, rheoli peryglon llifogydd a dal a storio carbon olygu y gallai ffermwyr yr ucheldir elwa o'r cysyniad o 'arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus'. Pwysleisiodd hefyd fod **Ymgynghoriad Health and Harmony** Defra yn mynd i'r afael â gofynion cymorth ychwanegol ffermwyr yr ucheldir yn Lloegr. Bydd adroddiad ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad, a gafodd dros 44,000 o ymatebion, yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Ar 23 Mai, cynhaliodd Pwyllgor Masnach Rhyngwladol Tŷ'r Cyffredin sesiwn dystiolaeth gyntaf ei **ymchwiliad i fasnach a'r gymanwlad: Awstralia a Seland Newydd. Clywodd y Pwyllgor gan gynrychiolwyr y sector llaeth a chig**. Penododd Seland Newydd **lysgennad cig coch ar gyfer y DU** i hyrwyddo buddiannau ei diwydiant cig coch yn ystod y negodiadau ar Brexit.

Ar 6 Mehefin cyhoeddodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ei adroddiad ar **gynigion Llywodraeth y DU ar ffermio ar ôl Brexit (PDF 503KB)** fel y nodir yn **Ymgynghoriad Health and Harmony Defra**. Mae'r adroddiad yn galw ar Lywodraeth y DU i lunio asesiad fesul sector o dynnu taliadau uniongyrchol yn ôl a chynllun cynhyrchiant ffermydd, neilltuo cyllid amaethyddol ar ôl Brexit, rhoi mwy o fanylion am ddulliau cymorth i ffermwyr yn y dyfodol, cydnabod cynhyrchu bwyd iach fel rhywbeth sydd o fudd i'r cyhoedd, a sicrhau bod cynhyrchion sy'n

dod i mewn i'r DU yn parchu safonau lles anifeiliaid ac amgylcheddol sydd eisoes yn bodoli.

Ar 6 Mehefin, holodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Greg Hands **ynghylch effaith cwotâu tariff a chytundebau masnach yr UE ar y diwydiant siwgr**. Roedd y sesiwn yn rhan o **ymchwiliad y Pwyllgor i fasnach mewn siwgr ar ôl Brexit**.

Hefyd ar 6 Mehefin clywodd Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon gan Undeb Amaethwyr Ulster a phanel academaidd arbenigol **ar faterion allweddol sy'n wynebu'r sector amaethyddol yng Ngogledd Iwerddon**. Ymchwiliodd y sesiwn i ba agweddau ar y PAC a ddylai gael eu hefelychu gan bolisi ffermio yn y dyfodol a pha agweddau y dylid eu hepgor.

Ar 7 Mehefin rhoddodd Lesley Griffiths **dystiolaeth** i'r Pwyllgor Materion Cymreig fel rhan o'i ymchwiliad i **Brexit: Amaethyddiaeth, Masnach a dychwelyd pwerau**. Trafododd yr angen am strwythur newydd i edrych ar anghydfodau, yn benodol ynghylch galwadau am sefydlu Cyngor Gweinidogion a Chydbwyllgor Gweinidogion (JMC) ar gyfer masnach. O ran **Papur Gwyrdd Cymru ar Amaethyddiaeth**, a gyhoeddwyd yn ddiweddarach ar 10 Gorffennaf (gweler adran 4 Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru - Amaethyddiaeth a bwyd), dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y ffenestr ymgynghori wedi'i hystyngi i 16 wythnos ac y bydd yn dod i ben ym mis Hydref. Dywedodd fod gwahaniaethau mawr rhwng y Papur Gwyrdd ac **ymgynghoriad Health and Harmony** Defra, gan nodi bod cynigion Cymru yn canolbwyntio mwy ar dirwedd, diwylliant a chymunedau.

Pwysleisiodd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cael llawer o eglurder ynglŷn â threfniadau cyllido gan Lywodraeth y DU gan ailadrodd ofnau ynghylch cymhwyso fformiwla Barnett i gyllid amaethyddol. Trafododd hefyd yr ardoll cig coch sy'n cael ei chasglu yn Lloegr ar gyfer da byw a fagwyd yng Nghymru ond sy'n cael eu lladd yn Lloegr. Dywedodd fod trafodaethau'n parhau ynghylch a ddylid cyflwyno newidiadau drwy Fil Amaethyddiaeth y DU i sicrhau bod yr ardoll hon yn cael ei dychwelyd i Hybu Cig Cymru.

Ar 8 Mehefin, cyhoeddodd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi **ei adroddiad (PDF 679KB)** ar y berthynas rhwng y DU a'r UE. Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r angen i symud trafodaethau Brexit i gyfeiriad sy'n canolbwyntio ar sefydlu perthynas newydd rhwng y DU a'r UE ac yn pennu pum egwyddor allweddol ar gyfer gwerthuso **Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar y berthynas**.

**rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.** Ailadroddodd y Pwyllgor ei gred fod Brexit yn cyflwyno cyfleoedd i'r sectorau amaethyddiaeth a physgodfeydd, ond pwysleisiodd fod rhai ohonynt, yn hollbwysig, yn dibynnu ar delerau'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE. Yn y sector amaethyddol, mae hyn oherwydd bod **ymrwymiad Llywodraeth y DU i gynnal safonau lles anifeiliaid** ar ôl Brexit yn debygol o fod yn fwy ffafriol i fasnach rydd mewn bwyd gyda'r UE nag â gweddill y byd. Gweler adroddiadau blaenorol y Pwyllgor ar **fwyd** ac **amaethyddiaeth** am ragor o fanylion.

Ar 13 Mehefin cynhaliodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig **sesiwn dystiolaeth untro** gyda Michael Gove. Holodd y Pwyllgor yr Ysgrifennydd Gwladol am waith Defra a pharatoadau ar gyfer Brexit, megis datblygu Biliau Amaethyddiaeth a Physgodfeydd y DU a chraffu arnynt, monitro'r **ymgyngoriad Health and Harmony**, a dadansoddiad sectoraidd o drefniadau ariannu amaethyddol yn y dyfodol. **Dywedodd** Michael Gove mai ei obaith yw y bydd Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU yn cael ei gyhoeddi cyn toriad yr haf.

Ar 14 Mehefin bu Tŷ'r Cyffredin yn trafod Adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, sy'n dwyn y teitl **Brexit: Trade in Food** ac **ymateb Llywodraeth y DU**. Roedd y pynciau a gwmapswyd yn y trafodaethau yn cynnwys systemau TG ar gyfer rheoli masnach, dangosyddion daearyddol ar gyfer bwyd (a elwir hefyd yn enwau bwyd gwarchoddedig), cadwyni cyflenwi trawsffiniol Gogledd Iwerddon, allforion bwyd a diod yr Alban, trefniadau masnach, y gweithlu milfeddygol a'r perthnasau tollau. Pan ofynnwyd iddo pryd y bydd Defra yn cyhoeddi dadansoddiad fesul sector ar effaith Brexit ar amaethyddiaeth, awgrymodd George Eustice fod Llywodraeth y DU wedi gwneud gwaith o'r fath ond na all ei gyhoeddi. Cyfeiriodd at **ddadansoddiad o senario lle y caiff pob gwald ei thrin yn deg gan yr NFU yn 2016 (PDF 932KB)**, gan ddweud bod y dadansoddiad yn gywir yn gyffredinol.

Ar 20 Mehefin **clwydodd Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon dystiolaeth gan gynrychiolwyr o'r sector da byw a'r sector ffermio llaeth**. Archwiliodd y sesiwn sut y gall polisi amaethyddol yn y dyfodol barhau i gefnogi'r sector, sy'n cyfrif am y mwyafrif helaeth o allbwn amaethyddol Gogledd Iwerddon ond sy'n dibynnu'n drwm ar daliadau uniongyrchol a chadwyni cyflenwi trawsffiniol.

Ar 26 Mehefin cafwyd dadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar **effaith gadael yr UE ar ffermio ucheldir**. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys dychwelyd yr ardoll cig coch, rheoli fframweithiau cyffredin y DU, dyfodol cymorth amaethyddol, mynediad

i farchnadoedd allforio yr UE, a phwysigrwydd ffermydd yr ucheldir ar gyfer cymunedau gwledig a diogelu'r amgylchedd.

Ar 4 Gorffennaf cynhaliodd Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE Tŷ'r Arglwyddi drafodaeth bord gron gyda rhanddeiliaid ar **ddiogelwch bwyd a rheoli risg ar ôl Brexit**. Ymchwiliodd y drafodaeth i ba raddau y gallai'r DU barhau i fod yn rhan o broses rheoli risg diogelwch bwyd yr UE a pha fylchau fyddai'n cael eu creu gartref pe bai'r DU yn gadael y broses honno.

Ar 9 Gorffennaf cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig ei adroddiad yn dwyn y teitl **Brexit: priorities for Welsh agriculture**. Mae'r adroddiad yn cynnwys canfyddiadau ar: flaenoriaethau ar gyfer negodiadau rhwng y DU a'r UE; cyfrifoldeb dros bolisi amaethyddol; polisi amaethyddol ar ôl Brexit; a chynhyrchiant, hyrwyddo a chaffael.

## Lles anifeiliaid

Ar 4 Mehefin cynhaliwyd **dadl yn Nhŷ'r Cyffredin yn gwahardd masnach ffwr yn y DU**. Roedd y ddadl yn **seiliedig ar ddeiseb** lle y cafwyd dros 109,000 o lofnodion. Er bod ffermio ffwr wedi'i wahardd ym mhob rhan o'r DU erbyn 2002, gellir parhau i fewnforio ffwr yn gyfreithlon o dan Reoliadau presennol yr UE. Roedd yr Aelodau'n cefnogi'n eang y cynnig am waharddiad yn y DU, a gofynnodd i Lywodraeth y DU ddefnyddio Brexit fel cyfle i gyflwyno Rheoliadau llymach ar fewnforion ffwr. Ymatebodd George Eustice gan ddweud bod cyfran y farchnad yn y DU yn rhy fach i gyfiawnhau gwaharddiad masnachu fel ffordd effeithlon o wella lles anifeiliaid.

Ar 13 Mehefin cynhaliwyd dadl ar **fewnforion foie gras** yn Nhŷ'r Cyffredin. Yn debyg i ffwr, mae cynhyrchu foie gras yn y DU wedi'i wahardd, ond gellir ei fewnforio'n gyfreithlon a byddai cyfyngiadau masnach yn gofyn am ganiatâd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Awgrymodd yr aelodau fod Brexit yn cynnig cyfle i archwilio cyfyngiadau dan gyfraith Sefydliad Masnach y Byd (WTO). Ychwanegodd George Eustice, ar ôl Brexit, y gallai'r DU ddefnyddio ei sedd annibynnol y bydd wedi'i hadennill yn **Sefydliad y Byd ar gyfer Iechyd Anifeiliaid (OIE)** fel cyfle i hyrwyddo cynhyrchu foie gras yn rhyngwladol heb fwydo gorfodol.

Gadawodd y **Bill Ifori** Dŷ'r Cyffredin â nifer o welliannau ar 4 Gorffennaf ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ystyried yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae'r Bil yn seiliedig ar a **ymgyngoriad gan Defra ar wahardd gwerthu ifori yn y DU**. Diben y Bil

Ifori yw gwahardd gweithgareddau masnachol sy'n ymwneud ag ifori yn y DU a mewnfario ac ail-allfario ifori at ddibenion masnachol i'r DU ac oddi yno, gan gynnwys masnach o fewn yr UE i'r DU ac oddi yma.

## Ynni a newid hinsawdd

Cyhoeddwyd adroddiad Is-Bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE Tŷ'r Arglwyddi yn dwyn y teitl **Brexit energy security (PDF 2.25MB)** ym mis Ionawr ac fe'i trafodwyd yn **Nhŷ'r Arglwyddi** ar 6 Mehefin. Mae'n nodi nifer o heriau posibl y sgil Brexit i ddiogelwch ynni'r DU ac mae'n nodi 43 o argymhellion. Ymhlith yr heriau a nodwyd mae'r posibilrwydd y bydd y DU yn gadael **marchnad ynni fewnol (IEM) yr UE**, y ffaith y bydd y DU yn gadael **Euratom** sydd ar hyn o bryd yn hwyluso masnachu mewn deunydd niwclear, a phrinder posibl arolygwyr cymwys yn y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) pe byddai'n colli mynediad i weithwyr arbenigol yr UE. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb ar 29 Mawrth. **Holodd y Pwyllgor gynrychiolwyr yr ONR** ynghylch pa mor barod ydyw ar gyfer Brexit ar 11 Gorffennaf.

Ar 29 Mai lansiodd Pwyllgor Busnes, Ynni, a Strategaeth Ddiwydiannol Tŷ'r Cyffredin **ymchwiliad i ddal, defnyddio a storio carbon**. Mae dal, defnyddio a storio carbon yn set o dechnolegau sy'n cipio carbon deuocsid o nwyon gwastraff i'w storio yn yr hirdymor neu at ddefnydd diwydiannol. Mae'r ymchwiliad yn craffu ar ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddefnyddio technoleg dal, defnyddio a storio carbon a'i chynlluniau wrth gefn os na fydd hynny'n opsiwn ymarferol i leihau allyriadau.

Mae'r ymchwiliad i ddal, defnyddio a storio carbon yn adeiladu ar waith cynharach y Pwyllgor ar **Strategaeth Twf Glân** Llywodraeth y DU. Yn y strategaeth hon, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU** na fydd Brexit yn effeithio ar ymrwymadau statudol y DU o dan ei Deddf Newid Hinsawdd ei hun y mae ei thargedau lleihau carbon yn fwy uchelgeisiol na'r rhai a bennir gan ddeddfwriaeth yr UE. Nod y strategaeth Twf

Glân yw defnyddio technolegau dal, defnyddio a storio carbon yn y 2030au fel ffordd o gyrraedd targedau allyriadau rhwymol domestig, pe bai'r dechnoleg yn dod yn ddigon costeffeithiol. Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu **Tasglu Herio Costau Dal, Defnyddio a Storio Carbon** i ymchwilio i sut y gellir lleihau costau. Mae disgwyl i'r tasglu adrodd yn ôl yn haf 2018.

Cafodd **Deddf Dulliau Diogelu Niwclear 2018** Gydsyniad Brenhinol ar 26 Mehefin. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer dulliau diogelu niwclear ar ôl i'r DU adael Euratom drwy alluogi Llywodraeth y DU i wneud Rheoliadau ar gyfer dulliau

diogelu niwclear, a gweithredu cytundebau rhyngwladol mewn perthynas â hynny. Wrth wneud Rheoliadau, rhaid i Weinidogion y DU ymgynghori ag ONR y DU a rhaid i'r Rheoliadau fod yn destun y weithdrefn gadarnhaol yn nau Dŷ'r Senedd yn y DU. Os bydd unrhyw un o'r cytundebau rhyngwladol ar ddulliau diogelu niwclear i'w gweithredu gan Lywodraeth y DU yn ôl y Rheoliadau yn gytuniadau y mae angen eu cadarnhau gan y DU, rhaid eu gosod gerbron Senedd y DU fel sy'n ofynnol gan brosesau cadarnhau *Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010*.

Mae dulliau diogelu niwclear yn rhai sydd wedi'u cadw yn ôl ac mae darpariaethau'r Bil yn berthnasol i'r DU gyfan. Yn ystod Cyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin, yn dilyn ymgais aflwyddiannus yr SNP i ychwanegu cymal i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Gweinidogion datganoledig cyn penderfynu ar gytundebau rhyngwladol newydd mewn perthynas â diogelu niwclear, **ymatebodd y Gweinidog dros Fusnes a Diwydiant, Richard Harrington**, gan ddweud:

As I have said, nuclear safeguards are not a devolved matter. Despite the responsibility legally being the UK Government's, I hope that our general approach of having an open and transparent process, which is evolving, would be described as reassuring. The Government are acutely aware of the value of consultation in developing this new regulatory regime—obviously with the ONR, but also with the industry generally and formally and informally with parliamentary colleagues. As I have explained before, the nuclear safeguards regime regulations will be subject to detailed consultations with the regulator and industry. Industry stakeholders across the UK, which of course includes Scotland, Wales and Northern Ireland, will be widely encouraged to take part in that consultation. The outcome of the consultation will then be made public, in line with the Government's general policy on consultations.

The public consultation on the draft regulations will not be the first or only opportunity for stakeholders to be made aware of our intentions, and it will not be their only opportunity to provide the Government with their views. We have had detailed discussions with the nuclear industry since the referendum, and we will continue to work closely with it and other stakeholders when taking the development of the new regime forward, including the development of regulations. My officials have already been in discussions with colleagues from across the devolved Administrations and the relevant environment agencies, such as the Scottish Environment Protection Agency, Natural Resources Wales and so on, to ensure effective collaborations on key Euratom-related policy areas—including the domestic nuclear safeguards regime—and will continue to do so.



## Pysgodfeydd

Ar 7 Mehefin yn ystod **ei hymddangosiad gerbron y Pwyllgor Materion Cymreig** fel rhan o'i ymchwiliad i **Brexit: Amaethyddiaeth, Masnach a dychwelyd pwerau**, dywedodd Lesley Griffiths:

We are not as forward on our fisheries policy as our agricultural and land management policies, but we will be going out to consultation in due course.

Ar 8 Mehefin, cyhoeddodd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi **ei adroddiad (PDF 679KB)** ar y berthynas rhwng y DU a'r UE (gweler adran 8 Camau gweithredu gan Senedd y DU - Amaethyddiaeth a bwyd). O ran pysgodfeydd, nododd y Pwyllgor agosrwydd daearyddol i'r UE, symudedd stoc pysgod, cyfraith ryngwladol ac arwyddocâd marchnadoedd allforio yr UE fel ffactorau sy'n galw am berthynas gydweithredol uniongyrchol ac effeithiol gyda'r UE a gwledydd cyfagos eraill. Gweler adroddiadau blaenorol y Pwyllgor ar **bysgodfeydd** am ragor o fanylion.

Ar 14 Mehefin cynhaliodd y Pwyllgor **sesiwn dystiolaeth gyhoeddus yn County Down** i ymchwilio i gyflwr presennol sector pysgodfeydd Gogledd Iwerddon ac edrych ar **effaith y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin**. Clywodd y Pwyllgor gan bysgotwyr lleol a'r **Loughs Agency**.

Ar 4 Gorffennaf cynhaliodd Tŷ'r Cyffredin ddatl ar **ddatganiad Michael Gove ar bysgodfeydd cynaliadwy**. Roedd y datganiad yn cyd-fynd â chyhoeddi'r **Papur Gwyn ar Bysgodfeydd** (gweler adran 3 Camau gweithredu eraill gan Lywodraeth y DU - Pysgodfeydd). **Holodd yr Aelodau yr Ysgrifennydd Gwladol** ar nifer o faterion, gan gynnwys trefniadau pysgota yn y dyfodol gyda gwledydd yr UE, disodli fframwaith Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a fframwaith y DU ar gyfer rheoli pysgodfeydd.

Ar 11 Gorffennaf, cynhaliwyd dadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar y **diwydiant pysgota a fisas ar gyfer dinasyddion y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd**.

## Gwarchod natur

Ar 18 Mai lansiodd Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd Tŷ'r Cyffredin **ymchwiliad**.

**newydd i gynigion Llywodraeth y DU** i sefydlu corff newydd i warchod yr amgylcheddol a'i gynigion i gynnwys egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith y DU ar ôl Brexit.

Ar 12 Mehefin **clwydd y Pwyllgor gan** gyrff anllywodraethol amgylcheddol, cynghreiriau busnes ac academyddion ynghylch materion cyfreithiol a llywodraethu. Ar 19 Mehefin **cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth** oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd Tŷ'r Arglwyddi, yr Arglwydd Deben, a'r Farwnes Brown, Cadeirydd Is-Bwyllgor Addasu'r Pwyllgor, a hefyd y Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Roedd y **cylch gorchwyl** a gyfer yr ymchwiliad yn adeiladu ar y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod **ymchwiliad y Pwyllgor i Gynllun Amgylcheddol 25 mlynedd Llywodraeth y DU**.

Ar 20 Mehefin cyhoeddodd y Pwyllgor **ohebiaeth gan Michael Gove (PDF 1.98MB)**. Yn ei lythyr, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai Bil drafft ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref, ynghyd â dull o bennu dangosyddion a metrigau ar gyfer mesur cynnydd yn unol â'r Cynllun Amgylcheddol 25 mlynedd ar ddechrau 2019. Mae'r llythyr yn nodi y bydd y cynnig yn cynnwys dadansoddiad cymharol sy'n ymwneud ag ymrwymadau domestig a rhyngwladol presennol, gan gynnwys targedau'r UE. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi ymrwymo i adrodd yn ôl i Senedd y DU bob blwyddyn ar gynnydd yn erbyn y cynllun.

Ar 11 Gorffennaf **clwydd y Pwyllgor gan** Michael Gove fel rhan o'i ymchwiliad. Dywedodd y gallai'r UE fynnu cael cymal i beidio â dychwelyd pwerau mewn perthynas â safonau amgylcheddol mewn cytundeb masnach gyda'r DU. Dywedodd fod Defra wedi bod yn gweithio'n dda gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ar system lywodraethu amgylcheddol y DU yn y dyfodol, gan ddweud yn ogystal â chytgord o fewn llywodraeth y DU, bod cytgord yn fras ar draws y llywodraethau ar y materion hyn. Dywedodd na fyddai newid hinsawdd yn cael ei gynnwys o fewn cwmpas y corff gwarchod gwyrdd arfaethedig. Dadleuodd ei bod yn ddigonol i'r llywodraeth roi ystyriaeth i ddatganiad polisi ar egwyddorion amgylcheddol, yn hytrach na gweithredu yn unol ag ef, fel y mae rhai Aelodau wedi argymhell.

## Dŵr

Yn ogystal, mae llythyr yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn amlinellu cynllun

Llywodraeth y DU ar gyfer gweithredu **Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE** a gwariant ar **Brosiectau parodrwydd ar gyfer Brexit Defra (PDF 176KB)**.

Ar 20 Mehefin, **clwydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig gan banel o randdeiliaid** ar ei **ymchwiliad ar reoleiddio'r diwydiant dŵr**. Mae'r **cylch gorchwyl** ar gyfer yr ymchwiliad yn cynnwys ymchwilio i a all gwyro oddi wrth Reoliadau'r UE ar ôl Brexit arwain at fanteision amgylcheddol.

## Cemegau

Ar 27 Mehefin, mewn **trafodaeth bord gron**, trafododd Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE Tŷ'r Arglwyddi sut y bydd Brexit yn effeithio ar reoleiddio cemegau yn y DU. Ar hyn o bryd mae cemegau yn y DU yn cael eu rheoleiddio gan y **Rheoliad Ewropeaidd ar Gofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu Cemegau (REACH)**. Bu'r ford gron yn trafod manteision ac anfanteision parhaus i gymryd rhan yn REACH, sut y gall Llywodraeth y DU a busnesau baratoï ar gyfer gadael REACH, a sut mae gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE yn rhyngweithio â'r rheoliad. Mae'r sesiwn yn rhan o **ymchwiliad** y Pwyllgor ar ddyfodol Rheoliadau REACH. Mae'r sector cemegol yn allforio dros hanner ei allbwn i wledydd yr UE.

## Fframweithiau'r DU

Ar 6 Mehefin, **cyhoeddodd Pwyllgor EFRA ei adroddiad diweddaraf ar ddyfodol bwyd, ffermio a'r amgylchedd (PDF 503KB)**. O ran fframweithiau, dywed yr adroddiad:

Defra proposes that common frameworks will be established “where a common approach is required across the UK” and these will respect the devolution settlements and democratic accountability of the devolved legislatures. On this basis, four different agricultural policies could be adopted within the UK. This is not inherently a problem. Witnesses told us agricultural policy should continue to be a devolved matter, however they cautioned that there must be an element of regulatory alignment to retain the functioning of the UK single market.

Ar 20 Mehefin cafwyd dadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar **beirianwaith cyfansoddiadol y DU a'i fframweithiau ar gyfer cydweithredu rhynglywodraethol**.

Ar 21 Mehefin **cynhaliodd y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit ei bedwerydd cyfarfod**. Cynhaliwyd y cyfarfod yn Nhŷ'r Cyffredin ac fe'i cadeiriwyd gan Gadeirydd Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, Syr Bernard Jenkin. Mewn **datganiad ar y cyd** a gytunwyd gan y rhai a fynychodd, dywedir:

We previously recognised that the current system of inter-governmental relations is not fit for purpose and is in urgent need of substantial reform. Today we discussed the need for intergovernmental mechanisms for UK common frameworks and the importance of effective scrutiny of these processes and considered in detail the concerns about existing intergovernmental relations that have been identified by a range of our respective Committees [...]

We note that the UK Government is yet to outline its proposals for reform of intergovernmental mechanisms or how UK common frameworks will operate. We urge the Government to publish these proposals as soon as possible to allow time for consideration and consultation.

Cynrychiolwyd y Cynulliad yn y cyfarfod gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, David Rees, a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Mick Antoniw.

## Camau gweithredu gan Senedd yr Alban

### Ansawdd aer

Ar 23 Mai cyflwynwyd **Bil Newid Hinsawdd (Targedau Lleihau Allyriadau) (Yr Alban)** i Senedd yr Alban ac ar 29 Mai fe'i **cyfeiriwyd at y Pwyllgor Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir**.

Ar 27 Mehefin cymerodd y Pwyllgor Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir **dystiolaeth lafar gan Michael Gove ar oblygiadau amgylcheddol Brexit ar gyfer yr Alban (PDF 425KB)**. Holodd y Pwyllgor yr Ysgrifennydd Gwladol am **ymgyngoriad presennol Defra ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu ar ôl Brexit**. Holodd y Pwyllgor am y cynigion i sefydlu corff amgylcheddol statudol annibynnol a holodd sut y gall y corff ddwyn llywodraethau i gyfrif. Defnyddiodd yr Ysgrifennydd Gwladol ansawdd aer fel enghraifft o'r pŵer y gallai fod gan y corff, gan nodi:

... it will have the capacity to enforce compliance with the law if, for example, a Government is found to be operating with respect to air quality in a way that is in breach of the law. The body will have the power to

issue advisory notices initially, but it will ultimately have the power to take the Government to court, if it is in error, to ensure that it is brought into line with the law.

Holodd y Pwyllgor yr Ysgrifennydd Gwladol ymhellach, gan ddefnyddio'r esiampl o benderfyniad Llywodraeth y DU i gefnogi trydedd redfa yn Heathrow. Holodd y Pwyllgor ynghylch y rôl y byddai'r corff annibynnol yn ei chwarae pe byddai penderfyniadau unigol yn arwain at dorri rheoliadau ansawdd aer. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Gwladol gan ddweud:

The power should extend to a Government's policy decisions but not to individual planning decisions. That is an important distinction, because there are already—as there should be—protections in planning law and procedures to ensure that environmental considerations, of which air quality considerations are a subset, are met.

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 5 Mehefin **trafododd Senedd yr Alban adroddiad ar ddyfodol amaethyddiaeth yr Alban**. Roedd Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi'r **adroddiad** ar 31 Mai. Mae'r adroddiad yn nodi 18 o argymhellion allweddol ac fe'i datblygwyd gan bedwar arbenigwr o'r diwydiant a benodwyd gan Lywodraeth yr Alban i gefnogi gweithredu ei **gweledigaeth ar ddyfodol amaethyddiaeth yn yr Alban a gyhoeddwyd yn 2015**. Holodd yr Aelodau Fergus Ewing ar ystod o faterion, gan gynnwys y canfyddiad o ddiffyg eglurder a sicrwydd yng nghynlluniau Llywodraeth yr Alban, y canfyddiad o ddiffyg ymgysylltu â rhanddeiliaid a diogelwch bwyd.

Ar 6 Mehefin, cafodd Pwyllgor yr Economi Wledig a Chysylltedd ddiweddariad gan Fergus Ewing a Michael Russell ar **effaith Brexit ar amaethyddiaeth a physgodfeydd**. Yn ystod y sesiwn trafodwyd y camau gan Lywodraeth yr Alban ynghylch tywydd gwael, costau a hyblygrwydd system TG y PAC, cynnydd ar **gynllun sefydlogi'r PAC** a thaliadau dyledus, allforio anifeiliaid byw a thenantiaid ffermio.

Ar 20 Mehefin trafododd Senedd yr Alban **drefniadau pontio ar ôl Brexit ar gyfer cymorth amaethyddol**. Cyhoeddodd Fergus Ewing **ymgyngoriad ar gynigion** am gyfnod pontio pum mlynedd ar ôl Brexit ar gyfer cyllid gwledig. Mae'r ymgynghoriad yn mynd ar drywydd argymhelliad allweddol adroddiad ar **strategaeth ar gyfer amaethyddiaeth yr Alban yn y dyfodol**. Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn nodi cyfnod sefydlogrwydd dwy flynedd lle bydd rheolau'r UE

yn berthnasol, ac yna gyfnod o dair blynedd i symleiddio ac ailstrwythuro'r cynllun taliadau presennol.

Ar 27 Mehefin, rhoddodd Michael Gove dystiolaeth i'r Pwyllgor Economi Wledig a Chysylltedd **ar oblygiadau amaethyddiaeth a physgodfeydd Brexit ar gyfer yr Alban (PDF 439KB)**. Mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys dyfodol cyllid amaethyddol, y Biliau Amaethyddiaeth a Physgodfeydd, cyflenwad llafur yn y sectorau ffermio a physgodfeydd, enwau bwyd gwarchoddedig, polisi pysgodfeydd ar ôl Brexit, ac ehangu coetiroedd. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol y bydd yr Alban yn parhau i dderbyn lefelau estynedig o arian amaethyddol a dywedodd ei fod yn grediniol y bydd yr arian hwn yn cael ei neilltuo ar gyfer yr economi wledig. Cyhoeddodd ei fod yn gobeithio cyflwyno Bil Amaethyddiaeth y DU cyn toriad yr haf neu yn union ar ei ôl.

O ran enwau bwyd gwarchoddedig, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

We want to make sure that geographical indications [aka protected food names] are recognised as we leave the European Union, and so does the EU. ... The EU, too, has many protected geographical indications that it would like to see protected and preserved as we leave. That is part of the on-going negotiations between ourselves and the EU, to make sure that our respective interests are protected.

Ac:

At the moment, there is a debate about whether geographical indications should be part of the withdrawal agreement ... or whether they should be part of the future economic partnership. ... my judgment is that, because EU nations have many more geographical indications than the UK, the EU will want to have those guarantees and safeguards. That is in the EU's interests, much as it is in its interests to guarantee tariff-free access for agri-food products across the UK-EU border.

## Pysgodfeydd

O ran y ddeddfwriaeth pysgodfeydd arfaethedig, dywedodd Michael Gove wrth y Pwyllgor Economi Wledig a Chysylltedd hefyd:

We also hope to publish the fisheries white paper before the house rises for its recess, and the fisheries bill would be introduced towards the end of this year or maybe just at the beginning of 2019.

Ar yr un dyddiad ymddangosodd Michael Gove hefyd gerbron Pwyllgor yr Amgylchedd, Newid Hinsawcdd a Diwygio Tir fel rhan o'i **ymchwiliad i oblygiadau Brexit i'r amgylchedd**. Dywedodd:

It is the case that the environment is fully devolved, ditto agriculture and fisheries. We will of course need to have UK frameworks on agriculture and fisheries to make sure that Scotland's producers have the opportunity to have the same unfettered access to consumers in England that they do at the moment

## Gwarchod natur

Ar 5 Mehefin **cymerodd y Pwyllgor Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir dystiolaeth gan banel o randdeiliaid, academyddion ac ymgynghorwyr ar adroddiad ar lywodraethu amgylcheddol yn yr Alban ar ôl Brexit.** Roedd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi gan Ford Gron yr UE Llywodraeth yr Alban ar yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd ar 1 Mehefin ac mae'n ymchwilio i'r posibilrwydd o fylchau mewn trefniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit yn ogystal ag opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â hwy. Ymhlith y meysydd allweddol a nodwyd mae mynediad i arbenigedd mewn rhwydweithiau polisi ac ymarfer proffesiynol, mynediad i sgiliau a gwerth mecanweithiau goruchwyllo y Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder Ewrop.

## Fframweithiau'r DU

Holwyd Michael Gove am yr ymgysylltiad rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban ac ar y cynnydd o ran fframweithiau cyffredin deddfwriaethol ac anneddfwriaethol y DU **yn ystod ei ymddangosiad** gerbron Pwyllgor yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir ar 27 Mehefin. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol nad oedd Llywodraeth y DU yn awyddus i dynnu unrhyw un o bwerau Llywodraeth yr Alban oddi arni.

Ar 18 Mehefin lansiodd y Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad **alwad am dystiolaeth ar fframweithiau cyffredin y DU.** Y dyddiad cau yw 31 Awst.

## Ffynonellau allweddol eraill

### Ansawdd aer

Papur Briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Brexit and air quality**, Mehefin 2018

### Amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth

Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a Hybu Cig Cymru, **Archwilio goblygiadau Brexit ar amaethyddiaeth a garddwriaeth yng Nghymru**, Mehefin 2018

Rhwydwaith academaidd Brexit a'r Amgylchedd, **Post-Brexit agricultural support and WTO: Using both the amber and green boxes?**, Mehefin 2018

Blog Prifysgol Caerdydd, **Model ffermio ar ôl Brexit**, Gorffennaf 2018

NFU et al, **UK Food Supply Chain Manifesto for a successful Brexit**, Mai 2018

NFU Cymru, **Brexit Update**, Mehefin 2018

UK in a Changing Europe, **It is not just about hanging baskets, Brexit could have a crucial impact on horticulture**, Gorffennaf 2018

### Pysgodfeydd

Marine Scotland, **Economic Impacts of Scenarios for Scottish and UK Seafood Industries Post EU Exit**, Mehefin 2018

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau Pysgotwyr, **Adroddiad y Cadeirydd 2018**, Mehefin 2018

Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban (SPICe), **Will fishing be discarded in the Brexit negotiations?**, Mehefin 2018

UK in a Changing Europe, **Governing UK fisheries after Brexit – lessons from Iceland, Norway and the Faroe Islands**, Mai 2018

### Gwarchod natur

Rhwydwaith academaidd Brexit a'r Amgylchedd, **A new post-brexit environmental watchdog: Pwysigrwydd cyd-destun**, Gorffennaf 2018



- Client Earth, [A new Nature and Environment Commission](#), Mai 2018
- Client Earth, [Environmental principles in UK law after Brexit](#), Mehefin 2018

## Fframweithiau'r DU

Pecyn Dadl Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [UK constitutional machinery and the frameworks for intergovernmental cooperation](#), Mehefin 2018

## Adroddiadau eraill

Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, [National Infrastructure Assessment \(PDF 4.35MB\)](#), Gorffennaf 2018

Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU (UKELA), [Brexit Task Force year one report \(PDF 269KB\)](#), Mehefin 2018

UK in a Changing Europe, [Amending the way to a Green Brexit?](#), Mehefin 2018